OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 Rhif 607 (Cy. 86)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu Darllen a Rhifedd yn y Cwricwlwm i Gymru) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn sefydlu fframwaith newydd ar gyfer cwricwlwm ac yn gwneud darpariaeth ynghylch asesu ar gyfer disgyblion a phlant yng Nghymru. Dyma'r Cwricwlwm i Gymru. Mae adran 56 o'r Ddeddf yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer asesu mewn perthynas â'r cwricwlwm perthnasol. Mae i "cwricwlwm perthnasol" yr ystyr a roddir iddo yn adran 56(5) o'r Ddeddf.

Cafwyd cam cyntaf cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn y flwyddyn ysgol 2022 i 2023. Yna bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno yn flynyddol ar gyfer pob blwyddyn ysgol hyd nes y bydd wedi ei gyflwyno'n llawn ar gyfer pob blwyddyn ysgol yn y flwyddyn ysgol 2026 i 2027.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi effaith gyfreithiol i'r trefniadau asesu ar gyfer darllen a rhifedd yn y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer disgyblion sy'n mynychu ysgolion (heblaw am ysgol arbennig gymunedol a sefydlir mewn ysbyty) a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru ("yr asesiadau personol cenedlaethol").

Mae'r asesiadau personol cenedlaethol yn cymryd lle'r profion darllen a rhifedd ("y profion cenedlaethol") y rhoddir effaith gyfreithiol iddynt gan Orchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013 ("Gorchymyn 2013").

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2024 No. 607 (W. 86)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Arrangements for Assessing Reading and Numeracy in the Curriculum for Wales) Regulations 2024

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

The Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 ("the Act") establishes a new framework for a curriculum and makes provision about assessment for pupils and children in Wales. This is the Curriculum for Wales ("the CfW"). Section 56 of the Act provides that the Welsh Ministers must make provision by way of regulations for assessing in relation to the relevant curriculum. "Relevant curriculum" has the meaning given to it in section 56(5) of the Act.

The first phase of the roll out of the CfW was in the 2022 to 2023 school year. The CfW will then be rolled out annually for each school year until it is fully rolled out for all school years in the 2026 to 2027 school year.

These Regulations give legal effect to the assessment arrangements for reading and numeracy in the CfW for pupils who attend schools (other than a community special school established in a hospital) maintained by a local authority in Wales ("the national personalised assessments").

The national personalised assessments replace the reading and numeracy tests ("the national tests") which are given legal effect by the Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for Reading and Numeracy) (Wales) Order 2013 ("the 2013 Order").

Gwnaeth Rheoliadau Addysg (Dirymu Trefniadau Asesu yn y Cwricwlwm Cenedlaethol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau Dirymu") ddarpariaeth drosiannol fel bod Gorchymyn 2013 yn parhau i weithio gyda'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn ystod y cyfnod y mae'n cael ei gyflwyno. Mae'r Rheoliadau Dirymu yn dirymu Gorchymyn 2013 ar 1 Medi 2024.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r Asesiad Personol Cenedlaethol ar gyfer Darllen yn Saesneg. Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r Asesiad Personol Cenedlaethol ar gyfer Darllen yn Gymraeg. Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r Asesiad Personol Cenedlaethol ar gyfer Rhifedd.

Mae'r asesiadau personol cenedlaethol yn cael eu sefyll ar-lein ac yn asesu'r un sgiliau â'r profion cenedlaethol. Fodd bynnag, ceir rhai gwahaniaethau o ran y ffordd y bydd yr asesiadau personol cenedlaethol yn cael eu rhoi o gymharu â'r ffordd y mae'r profion cenedlaethol wedi cael eu rhoi—

(a) nid yw'r Rheoliadau hyn yn cynnwys gofyniad i'r pennaeth roi'r asesiadau personol yn unol ag amserlen a bennir gan Weinidogion Cymru. Yn hytrach, caiff y pennaeth benderfynu pryd yn y flwyddyn ysgol y bydd disgyblion yn sefyll yr asesiadau personol cenedlaethol,

(b) yn wahanol i Orchymyn 2013 mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod rhaid i'r pennaeth ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion sefyll yr asesiadau personol cenedlaethol o leiaf unwaith mewn blwyddyn ysgol. Felly, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ddisgybl sefyll yr asesiadau personol cenedlaethol fwy nag unwaith mewn blwyddyn ysgol,

(c) nid yw'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r pennaeth lofnodi datganiad i'r perwyl bod yr asesiadau personol cenedlaethol wedi eu rhoi yn unol â darpariaethau erthygl 6 o Orchymyn 2013, ond maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r pennaeth eu rhoi yn unol â llawlyfr gweinyddu'r APC,

(d) nid yw'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol fonitro gweinyddu'r asesiadau personol cenedlaethol, ac

(e) nid yw'r Rheoliadau hyn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymchwilio i unrhyw fater a atgyfeirir atynt o ganlyniad i unrhyw fonitro ar yr asesiadau personol cenedlaethol nac i gywiro canlyniadau fel y bo'n briodol.

The Education (Revocation of Assessment Arrangements in the National Curriculum and Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2022 ("the Revocation Regulations") made transitional provision so that the 2013 Order continues to work with the new CfW during the period it is being rolled out. The Revocation Regulations revoke the 2013 Order on 1 September 2024.

Regulation 3 makes provision in respect of the National Reading Personalised Assessment in English. Regulation 4 makes provision in respect of the National Reading Personalised Assessment in Welsh. Regulation 5 makes provision in respect of the National Numeracy Personalised Assessment.

The national personalised assessments are sat online and assess the same skills as the national tests. However, there are some differences to the way the national personalised assessments will be administered in comparison to the way the national tests have been administered—

(a) these Regulations do not include a requirement for the head teacher to administer the personalised assessments in accordance with a timetable set by the Welsh Ministers. Instead the head teacher may decide when in the school year pupils will sit the national personalised assessments,

(b) unlike in the 2013 Order these Regulations provide that the head teacher must require pupils sit the national personalised assessments at least once in a school year. Therefore, a pupil may be required to sit the national personalised assessments more than once in a school year,

(c) these Regulations do not require the head teacher to sign a declaration to the effect that the national personalised assessments have been administered in accordance with the provisions of article 6 of the 2013 Order, but they do require the head teacher to administer them in accordance with the NPA administration handbook,

(d) these Regulations do not require the local authority that maintains the school to monitor the administration of the national personalised assessments, and

(e) these Regulations do not place a duty on the Welsh Ministers to investigate any matter referred to them as a result of any monitoring of the national personalised assessments or to correct results as appropriate.

Mae paragraff 6 o Ran 2 o Atodlen 2 i Reoliadau Darparu Gwybodaeth gan Benaethiaid i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau Darparu Gwybodaeth") yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth ysgol a gynhelir ddarparu sylwadau cryno am ganlyniadau'r asesiadau a gynhelir o dan Orchymyn 2013. O ganlyniad i ddirymu Gorchymyn 2013, mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn rhoi cyfeiriad at y Rheoliadau hyn yn lle cyfeiriad at Orchymyn 2013 ym mharagraff 6 o Ran 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Darparu Gwybodaeth.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Paragraph 6 of Part 2 of Schedule 2 to the Provision of Information by Head Teachers to Parents and Adult Pupils (Wales) Regulations 2022 ("the Provision of Information Regulations") requires the head teacher of a maintained school to provide a brief commentary of the results of the assessments carried out under the 2013 Order. In consequence of the revocation of the 2013 Order, regulation 6 of these Regulations substitutes a reference to these Regulations for the reference to the 2013 Order in paragraph 6 of Part 2 of Schedule 2 to the Provision of Information Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 Rhif 607 (Cy. 86)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu Darllen a Rhifedd yn y Cwricwlwm i Gymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Mai 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *13 Mai 2024* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 56(1), (3) a (6), 74(1)(a) a 75(1) o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu Darllen a Rhifedd yn y Cwricwlwm i Gymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Medi 2024.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "yr APC" ("*the NPA*") yw'r Asesiadau Personol Cenedlaethol sy'n cynnwys yr APCRh, yr APCDCS a'r APCDCC;

ystyr "yr APCDCC" ("*the NRPAW*") yw'r Asesiad Personol Cenedlaethol ar gyfer Darllen – Cyfrwng Cymraeg, sef asesiad ar-lein a roddir i ddisgyblion at ddiben asesu eu sgiliau darllen yn Gymraeg;

(**1**) 2021 dsc 4. Ar gyfer y diffiniad o "rheoliadau" gweler adran 82(1) o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2024 No. 607 (W. 86)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Arrangements for Assessing Reading and Numeracy in the Curriculum for Wales) Regulations 2024

| | |
|---|---|
| *Made* | *9 May 2024* |
| *Laid before Senedd Cymru* | *13 May 2024* |
| *Coming into force* | *1 September 2024* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 56(1), (3) and (6), 74(1)(a) and 75(1) of the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021(**1**), make the following Regulations.

**Title and coming into force**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Education (Arrangements for Assessing Reading and Numeracy in the Curriculum for Wales) Regulations 2024.

(2) These Regulations come into force on 1 September 2024.

**Interpretation**

**2.** In these Regulations—

"the 1996 Act" ("*Deddf 1996*") means the Education Act 1996;

"the 2021 Act" ("*Deddf 2021*") means the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021;

"head teacher" ("*pennaeth*") means a head teacher, including an acting head teacher, of a maintained school;

(**1**) 2021 asc 4. For the definition of "regulations" see section 82(1) of the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021.

ystyr “yr APCDCS” (“*the NRPAE*”) yw’r Asesiad Personol Cenedlaethol ar gyfer Darllen – Cyfrwng Saesneg, sef asesiad ar-lein a roddir i ddisgyblion at ddiben asesu eu sgiliau darllen yn Saesneg;

ystyr “yr APCRh” (“*the NNPA*”) yw’r Asesiad Personol Cenedlaethol ar gyfer Rhifedd, sef asesiad ar-lein a roddir i ddisgyblion at ddiben asesu eu sgiliau rhifedd;

ystyr “blwyddyn 2” (“*year 2*”) yw grŵp blwyddyn ysgol y bydd y mwyafrif o’r disgyblion ynddo, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 7 oed;

ystyr “blwyddyn 3” (“*year 3*”) yw grŵp blwyddyn ysgol y bydd y mwyafrif o’r disgyblion ynddo, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 8 oed;

ystyr “blwyddyn 4” (“*year 4*”) yw grŵp blwyddyn ysgol y bydd y mwyafrif o’r disgyblion ynddo, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 9 oed;

ystyr “blwyddyn 5” (“*year 5*”) yw grŵp blwyddyn ysgol y bydd y mwyafrif o’r disgyblion ynddo, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 10 oed;

ystyr “blwyddyn 6” (“*year 6*”) yw grŵp blwyddyn ysgol y bydd y mwyafrif o’r disgyblion ynddo, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 11 oed;

ystyr “blwyddyn 7” (“*year 7*”) yw grŵp blwyddyn ysgol y bydd y mwyafrif o’r disgyblion ynddo, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 12 oed;

ystyr “blwyddyn 8” (“*year 8*”) yw grŵp blwyddyn ysgol y bydd y mwyafrif o’r disgyblion ynddo, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 13 oed;

ystyr “blwyddyn 9” (“*year 9*”) yw grŵp blwyddyn ysgol y bydd y mwyafrif o’r disgyblion ynddo, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 14 oed;

ystyr “blwyddyn ysgol” (“*school year*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau â’r tymor ysgol cyntaf i ddechrau ar ôl mis Gorffennaf ac sy’n dod i ben â dechrau’r tymor cyntaf o’r fath i ddechrau ar ôl y mis Gorffennaf canlynol;

ystyr “canllawiau datgymhwyso’r APC” (“*the NPA disapplication guidance*”) yw’r adran o lawlyfr gweinyddu’r APC sy’n dwyn y teitl “Datgymhwyso” ac sy’n nodi pa ddisgyblion nad oes angen rhoi’r APC iddynt;

ystyr “Deddf 1996” (“*the 1996 Act*”) yw Deddf Addysg 1996;

ystyr “Deddf 2021” (“*the 2021 Act*”) yw Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021;

mae i “disgybl” yr ystyr a roddir i “pupil” yn adran 3 o Ddeddf 1996(**1**);

(**1**) 1996 p. 56. Diwygiwyd adran 3 gan baragraff 9 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p. 44) a chan baragraff 34 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (p. 32).

“maintained school” (“*ysgol a gynhelir*”) has the meaning given in section 79(1)(a) of the 2021 Act;

“the NNPA” (“*yr APCRh*”) means the National Numeracy Personalised Assessment, being an online assessment administered to pupils for the purpose of assessing their numeracy skills;

“the NRPAE” (“*yr APCDCS*”) means the English-medium National Reading Personalised Assessment, being an online assessment administered to pupils for the purpose of assessing their reading skills in English;

“the NRPAW” (“*yr APCDCC*”) means the Welsh-medium National Reading Personalised Assessment, being an online assessment administered to pupils for the purpose of assessing their reading skills in Welsh;

“the NPA” (“*yr APC*”) means the National Personalised Assessments which comprise the NNPA, the NRPAE and the NRPAW;

“the NPA administration handbook” (“*llawlyfr gweinyddu’r APC*”) means the document entitled the “National Reading and Numeracy Personalised Assessments: administration handbook” published by the Welsh Ministers from time to time and which details the administrative arrangements of the NPA;

“the NPA disapplication guidance” (“*canllawiau datgymhwyso’r APC*”) means the section of the NPA administration handbook entitled “Disapplication” and which sets out which pupils need not be administered the NPA;

“pupil” (“*disgybl*”) has the meaning given in section 3 of the 1996 Act(**1**);

“school year” (“*blwyddyn ysgol*”) means the period beginning with the first school term to begin after July and ending with the beginning of the first such term to begin after the following July;

“year 2” (“*blwyddyn 2*”) means a school year group in which the majority of pupils will in the school year attain the age of 7;

“year 3” (“*blwyddyn 3*”) means a school year group in which the majority of pupils will in the school year attain the age of 8;

“year 4” (“*blwyddyn 4*”) means a school year group in which the majority of pupils will in the school year attain the age of 9;

(**1**) 1996 c. 56. Section 3 was amended by the Education Act 1997 (c. 44), Schedule 7, paragraph 9 and by the Education Act 2002 (c. 32), Schedule 21, paragraph 34.

ystyr “grŵp blwyddyn” (“*year group*”) yw grŵp o blant mewn ysgol y bydd y mwyafrif ohonynt, yn ystod blwyddyn ysgol benodol, yn cyrraedd yr un oedran;

ystyr “llawlyfr gweinyddu’r APC” (“*the NPA administration handbook*”) yw’r ddogfen sy’n dwyn y teitl “Asesiadau Personol Cenedlaethol ar gyfer Darllen a Rhifedd: llawlyfr gweinyddu” a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o bryd i’w gilydd ac sy’n manylu ar drefniadau gweinyddol yr APC;

ystyr “pennaeth” (“*head teacher*”) yw pennaeth, gan gynnwys pennaeth dros dro, ysgol a gynhelir;

mae i “ysgol a gynhelir” (“*maintained school*”) yr ystyr a roddir yn adran 79(1)(a) o Ddeddf 2021.

“year 5” (“*blwyddyn 5*”) means a school year group in which the majority of pupils will in the school year attain the age of 10;

“year 6” (“*blwyddyn 6*”) means a school year group in which the majority of pupils will in the school year attain the age of 11;

“year 7” (“*blwyddyn 7*”) means a school year group in which the majority of pupils will in the school year attain the age of 12;

“year 8” (“*blwyddyn 8*”) means a school year group in which the majority of pupils will in the school year attain the age of 13;

“year 9” (“*blwyddyn 9*”) means a school year group in which the majority of pupils will in the school year attain the age of 14;

“year group” (“*grwp blwyddyn*”) means a group of children at a school the majority of whom will, in a particular school year, attain the same age.

**Yr Asesiad Personol Cenedlaethol ar gyfer Darllen: Saesneg**

**3.**—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys i—

(a) disgybl ym mlwyddyn 4 i flwyddyn 9, a

(b) disgybl ym mlwyddyn 2 a blwyddyn 3 pan fo’r mwyafrif o wersi’r disgybl hwnnw, ym marn y pennaeth, yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg.

(2) Rhaid i’r pennaeth wneud trefniadau i’r APCDCS gael ei roi i bob disgybl—

(a) o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ysgol, a

(b) yn unol â llawlyfr gweinyddu’r APC.

(3) Ond nid yw’r rheoliad hwn yn gymwys i ddisgybl sydd, ym marn y pennaeth, yn dod o fewn un o’r categorïau a restrir yng nghanllawiau datgymhwyso’r APC.

**National Reading Personalised Assessment: English**

**3.**—(1) This regulation applies to—

(a) a pupil in year 4 to year 9, and

(b) a pupil in year 2 and year 3 where, in the opinion of the head teacher, the majority of that pupil’s lessons are taught through the medium of English.

(2) The head teacher must make arrangements for the NRPAE to be administered to each pupil—

(a) at least once in every school year, and

(b) in accordance with the NPA administration handbook.

(3) But this regulation does not apply to a pupil who, in the opinion of the head teacher, falls within one of the categories listed in the NPA disapplication guidance.

**Yr Asesiad Personol Cenedlaethol ar gyfer Darllen: Cymraeg**

**4.**—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys i ddisgybl ym mlwyddyn 2 i flwyddyn 9 pan fo’r mwyafrif o wersi’r disgybl hwnnw, ym marn y pennaeth, yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

(2) Rhaid i’r pennaeth wneud trefniadau i’r APCDCC gael ei roi i bob disgybl—

(a) o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ysgol, a

(b) yn unol â llawlyfr gweinyddu’r APC.

(3) Ond nid yw’r rheoliad hwn yn gymwys i ddisgybl sydd, ym marn y pennaeth, yn dod o fewn un o’r categorïau a restrir yng nghanllawiau datgymhwyso’r APC.

**National Reading Personalised Assessment: Welsh**

**4.**—(1) This regulation applies to a pupil in year 2 to year 9 where, in the opinion of the head teacher, the majority of that pupil’s lessons are taught through the medium of Welsh.

(2) The head teacher must make arrangements for the NRPAW to be administered to each pupil—

(a) at least once in every school year, and

(b) in accordance with the NPA administration handbook.

(3) But this regulation does not apply to a pupil who, in the opinion of the head teacher, falls within one of the categories listed in the NPA disapplication guidance.

**Yr Asesiad Personol Cenedlaethol ar gyfer Rhifedd**

**5.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i ddisgybl ym mlwyddyn 2 i flwyddyn 9.

(2) Rhaid i'r pennaeth wneud trefniadau i'r APCRh gael ei roi i bob disgybl—

(a) o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ysgol, a

(b) yn unol â llawlyfr gweinyddu'r APC.

(3) Ond nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i ddisgybl sydd, ym marn y pennaeth, yn dod o fewn un o'r categorïau a restrir yng nghanllawiau datgymhwyso'r APC.

**Diwygio Rheoliadau Darparu Gwybodaeth gan Benaethiaid i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2022**

**6.** Ym mharagraff 6 o Ran 2 o Atodlen 2 i Reoliadau Darparu Gwybodaeth gan Benaethiaid i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2022(**1**), yn lle "Orchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013" rhodder "Reoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu Darllen a Rhifedd yn y Cwricwlwm i Gymru) 2024(**2**)".

**National Numeracy Personalised Assessment**

**5.**—(1) This regulation applies to a pupil in year 2 to year 9.

(2) The head teacher must make arrangements for the NNPA to be administered to each pupil—

(a) at least once in every school year, and

(b) in accordance with the NPA administration handbook.

(3) But this regulation does not apply to a pupil who, in the opinion of the head teacher, falls within one of the categories listed in the NPA disapplication guidance.

**Amendment to the Provision of Information by Head Teachers to Parents and Adult Pupils (Wales) Regulations 2022**

**6.** In paragraph 6 of Part 2 of Schedule 2 to the Provision of Information by Head Teachers to Parents and Adult Pupils (Wales) Regulations 2022(**1**), for "Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for Reading and Numeracy) (Wales) Order 2013" substitute "Education (Arrangements for Assessing Reading and Numeracy in the Curriculum for Wales) Regulations 2024(**2**)".

*Lynne Neagle*

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
9 Mai 2024

Cabinet Secretary for Education, one of the Welsh Ministers
9 May 2024

©ⓗHawlfraint y Goron 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2022/655 (Cy. 145).
(**2**) O.S. 2024/607 (Cy. 86).

(**1**) S.I. 2022/655 (W. 145).
(**2**) S.I. 2024/607 (W. 86).

£8.14

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2024/607

ISBN 978-0-348-39567-9